# Adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am Ymchwiliad i Bryderon (Cymru)

## Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

**Ionawr 2023**

## Cynnwys


**Cyflwyniad ........ 1**
**Y pryderon a godwyd ........ 1**
**Y broses ymchwilio ........ 1**
**Canlyniad yr ymchwiliad ........ 1**
**Esboniad o'r canfyddiadau ........ 2**
Ansawdd ........ 2
Myfyrwyr ........ 6
Partneriaethau ........ 9
Llywodraethu ansawdd ........ 13
Problemau eraill a ddaeth i'r amlwg ........ 15
**Y casgliad ........ 16**
**Yr argymhellion ........ 17**


*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

## Cyflwyniad

1 Mae hwn yn adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am ymchwiliad i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam (y Brifysgol) a wnaed o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru).[1]

## Y pryderon a godwyd

2 Cychwynnodd CCAUC ymchwiliad i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a chafodd ei basio i QAA ar 24 Tachwedd 2022 i wneud Ymchwiliad Cam 2 o dan y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru).

3 Rhoddodd CCAUC yr ymchwiliad ar waith am ei fod wedi gweld nifer o broblemau yn y Brifysgol a oedd, o'u hystyried ar y cyd, yn arwyddo bod rheswm i gredu bod risg yn bodoli y gallai ansawdd y ddarpariaeth fod yn annigonol neu ei fod yn debygol o fynd yn annigonol.

4 Dyma oedd ffocws yr ymchwiliad, fel y nodwyd gan CCAUC:

- **Ansawdd** - A oes gan y sefydliad systemau sicrhau ansawdd sy'n ddigon cadarn i ganfod problemau posibl a'i ddiogelu ei hun a phrofiad ei fyfyrwyr? A oes unrhyw broblemau systemig y mae angen ymdrin â nhw?
- **Myfyrwyr** - A all y sefydliad ateb anghenion rhesymol ei fyfyrwyr?
- **Partneriaethau** - A yw'r partneriaethau hyn yn cael eu datblygu a'u monitro'n gadarn, gyda digon o ddiwydrwydd dyladwy, a gyda digon o herio mewnol?
- **Llywodraethu ansawdd** - A oes gan y corff llywodraethu ddigon o oruchwyliaeth ac arbenigedd i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau am ansawdd, gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaethau academaidd?

## Y broses ymchwilio

5 Gweithredwyd yr ymchwiliad gan dîm o dri ymchwilydd, sef:

Yr Athro Emeritws Diane Meehan (y prif ymchwilydd)
Yr Athro David Lamburn, Prifysgol Warwick
Dr Harry Williams, ymchwilydd sy'n fyfyriwr.

6 Yn rhan o'r ymchwiliad, archwiliwyd ystod o dystiolaeth ddogfennol a chafwyd ymweliad â'r Brifysgol rhwng 17 ac 18 Ionawr 2023. Cydweithredodd y Brifysgol yn llawn ac yn broffesiynol â'r ymchwiliad.

## Canlyniad yr ymchwiliad

7 Daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod **problemau difrifol** yn bodoli. Gwnaeth y tîm nifer o argymhellion i'r Brifysgol a CCAUC.

[1] www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/ein-trefn-gwyno

# Esboniad o'r canfyddiadau

## Ansawdd

### Sicrhau ansawdd

8 Mae gan y Brifysgol brosesau a systemau cynhwysfawr ar gyfer rheoli ansawdd a safonau ei darpariaeth, fel y maent wedi eu disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar gyfer 2022-23. Mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd (Pwyllgor DAA) yn adolygu ac yn llofnodi'r llawlyfr bob blwyddyn. Hefyd, adolygir y Rheoliadau Academaidd ar gyfer 2022-23 yn flynyddol gan y Bwrdd Academaidd sy'n cymeradwyo unrhyw newidiadau. Yn adroddiad yr Adolygiad Gwella Ansawdd[2] o'r Brifysgol a wnaed gan QAA yn 2019 (paragraffau 74, 94), disgrifiwyd ei fframwaith academaidd a'r ffordd y rheolir y safonau academaidd fel rhai cadarn.

9 Mae Polisi a Fframwaith Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd y Brifysgol yn nodi bod "cyfranogaeth myfyrwyr fel partneriaid yn elfen sylfaenol o ethos Prifysgol Glyndŵr Wrecsam", a chadarnhawyd hyn gan aelodau o'r staff a'r myfyrwyr mewn cyfarfodydd â'r tîm. Mae'r Polisi a'r Fframwaith yn amlinellu cyfleoedd i'r myfyrwyr gyfranogi yn y prosesau o reoli ansawdd y ddarpariaeth academaidd a phrofiad y myfyrwyr, a rhoi adborth amdanynt. Mae'r cyfleoedd hyn yn gynhwysfawr ac yn cynnwys mecanweithiau allanol, megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), gwerthusiadau gan y myfyrwyr, Fforymau Llais y Myfyrwyr, cynrychiolaeth y myfyrwyr (gan gynnwys ar bwyllgorau allweddol), a'r system ar-lein sydd ar gael i roi adborth. Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw fod y Brifysgol yn gwrando ac yn gweithredu ar eu hadborth, gan roi'r ddwy esiampl a ganlyn: mewn perthynas â materion academaidd, trefnwyd y dysgu o gartref yn fwy effeithiol; ac yn y maes anacademaidd, cyflwynwyd cynigion 'bargen o bryd' yn y ffreutur. Dywedodd y myfyrwyr hefyd bod y staff, gan gynnwys y staff uwch, ar gael yn hawdd i'w cefnogi nhw a bod hynny wedi parhau'n wir drwy gydol y pandemig. Wedi iddo ystyried y dystiolaeth ddogfennol, mae'r tîm o'r farn y byddai strwythur llywodraethu academaidd y Brifysgol, o'i weithredu'n gadarn, yn galluogi iddi oruchwylio a gwella ei systemau sicrhau ansawdd yn briodol.

10 Mae gan y Bwrdd Academaidd y cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safonau academaidd. Mae Llawlyfr y Bwrdd Academaidd yn cadarnhau bod aelodaeth y Bwrdd Academaidd yn eang a bod ei aelodau'n cael eu tynnu o bob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys o blith y myfyrwyr a staff y gwasanaethau proffesiynol. Mae nifer o bwyllgorau a phanelau'n rhoi adroddiadau i'r Bwrdd Academaidd, gan gynnwys y Pwyllgor DAA a'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (Pwyllgor PA). Mae'r Is-Bwyllgor Rhaglenni Academaidd a Byrddau Astudiaethau'r Cyfadrannau'n adrodd i'r Pwyllgor DAA ac (ymhlith eu cyfrifoldebau eraill) mae'r ddau'n chwarae rôl allweddol yn y gwaith o oruchwylio'r broses fonitro flynyddol - y cyntaf ar lefel y sefydliad, a'r ail ar lefel y cyfadrannau. Er bod cylchoedd gwaith y Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau'n gyffredinol glir ac addas, canfu'r tîm wendidau yn nirprwyaeth yr awdurdod i'r Pwyllgor PA a'i Gadeirydd ac yng nghylch gwaith y Panel Amgylchiadau Esgusodol, fel y cawsent eu trafod ym mharagraffau 26 a 27. Ystyriodd y tîm adroddiad yr adolygiad o'r Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau a wnaed yn 2020, ochr yn ochr â'i gynllun gweithredu atodol, a chanfu bod camau gweithredu priodol ac effeithiol wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

### Prentisiaethau Gradd

11 Datblygwyd darpariaeth Prentisiaeth Gradd y Brifysgol er mwyn cyrraedd y targed sydd gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru o ran cefnogi parhad yr ymdrechion i hybu prentisiaethau ar draws y rhanbarth. Mae rhaglenni prentisiaeth y Brifysgol wedi derbyn dau adolygiad datblygiadol gan QAA - gwnaethpwyd yr adolygiad cyntaf ym mis Mawrth 2021

---

[2] www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Glynd-r-Wrecsam

ac ail-adolygiad ym mis Rhagfyr 2021, a threfnwyd adolygiad pellach i ddigwydd ym mis Ebrill 2023. Canfu'r adolygiad cyntaf bum maes sydd angen eu datblygu, a rhoddodd y Brifysgol gynllun gweithredu ar waith oedd yn cynnwys ail-ddilysu pob un o'i rhaglenni Prentisiaeth Gradd i sicrhau bod nodweddion penodol y Prentisiaethau Gradd yn derbyn ystyriaeth lawn. Cymerwyd camau gweithredu eraill sy'n cynnwys cefnogi myfyrwyr ar raglenni Prentisiaeth Gradd yn llawnach, diwygio llawlyfrau a defnyddio portffolio ar-lein i adolygu'r cynnydd yn barhaus. Atebodd y Brifysgol nifer o gwestiynau gan CCAUC am y cynllun gweithredu, yr amserlenni, effeithiau tebygol y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, ymgysylltiad â chyflogwyr, y broses ail-ddilysu a phrofiad y myfyrwyr oedd yn astudio ar y rhaglenni hyn ar y pryd. Yn dilyn ail-adolygu'r rhaglenni hynny, mae CCAUC wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Brifysgol i adolygu'r cynnydd.

12 Nododd y tîm fod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd yn dangos bod y cynllun gweithredu'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Hefyd, sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Prentisiaethau Gradd i ddod â chyflogwyr perthnasol at ei gilydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o brofiad dysgu a lles y prentisiaid. Mae cofnodion y grŵp o randdeiliaid yn dangos ei fod wedi cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd lle'r oedd staff y Brifysgol â chynrychiolwyr cyflogwyr yn bresennol. Mewn cyfarfod â'r tîm, dywedodd y staff fod y Grŵp wedi cryfhau ei ymgysylltiad â chyflogwyr a'i fod yn gweithio i geisio sicrhau rôl fwy canolog i gyflogwyr yn yr asesu. Dywedodd y staff wrth y tîm fod datblygiad y rhaglenni hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth a strategaeth y Brifysgol. Ond, roedd y staff yn cydnabod bod y ffrâm amser ar gyfer datblygiad, er mwyn sicrhau'r cyllid perthnasol, wedi cael ei gywasgu a bod gwendidau o ran diffyg dealltwriaeth lawn o rai o'r gofynion cyn lansio'r rhaglenni gwreiddiol. Soniodd y staff hefyd am nifer o wersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r profiad, gan gynnwys pwysigrwydd cael ymgysylltiad effeithiol gan gyflogwyr yn y prosesau o gynllunio a datblygu rhaglenni ac adolygu cynnydd y prentisiaid. Nododd y tîm fod newidiadau wedi eu gwneud i'r arweiniad yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n ymwneud â'r broses o gymeradwyo Prentisiaethau Gradd. Ymhlith y newidiadau hyn mae ychwanegu nodweddion penodol i'r rhaglenni hyn a'r gofyniad bod profiad gan aelodau allanol y panelau o ddatblygu neu ddarparu Prentisiaethau Gradd. Mae'r tîm o'r farn y bydd yr addasiadau hyn yn cefnogi timau'r ddwy raglen yn well wrth ddatblygu darpariaeth o'r fath yn y dyfodol ac yn darparu canllawiau i banelau cymeradwyo.

**Meistr mewn Ymchwil (MRes)**

13 Yn ystod 2018 a 2019, aeth y Brifysgol ati i gynllunio, datblygu a chymeradwyo cyfres o gymwysterau gradd MRes, gyda'r bwriad o'u darparu o ddechrau blwyddyn academaidd 2019-20, fel a ganlyn: y rhaglenni MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol ac mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol; y gyfres o raglenni MRes ym maes Gwyddoniaeth Fforensig sy'n cynnwys Cemeg Ddadansoddol a Fforensig, Anthropoleg Fforensig a Bioarchaeoleg, ac Anthropoleg a Bioarchaeoleg (atodol); y rhaglen MRes mewn Seicoleg; a chyfres o raglenni MRes mewn Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff gyda chyrsiau arbenigol ym meysydd Hyfforddi Chwaraeon, Seicoleg, Ffisioleg, Dadansoddi Perfformiad a Gweithgaredd Corfforol. Cadarnhaodd y Brifysgol nad yw'r rhaglen MRes mewn Seicoleg a'r rhaglenni MRes mewn Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff yn recriwtio bellach.

14 Mae'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Meistr[3] a gyhoeddir gan QAA yn nodi bod y "myfyrwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar eu cwrs yn gwneud gwaith ymchwil annibynnol, o dan oruchwyliaeth ac arweiniad. Efallai y byddant yn mynychu rhai cyrsiau strwythuredig er mwyn dysgu am ddulliau ymchwilio." Ond, mae gwahaniaeth rhwng graddau Meistr mewn Ymchwil "sy'n canolbwyntio ar astudio maes astudio penodol drwy ddefnyddio dulliau ymchwilio" a graddau Meistr mewn Ymchwil a addysgir sydd, yn ôl y Datganiad perthnasol, yn "canolbwyntio ar ddysgu am ymchwil ei hun yn hytrach nag astudio maes astudio penodol drwy wneud gwaith ymchwil". Yng Nghymru, defnyddir swyddogaeth rheoleiddio'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Meistr a gyhoeddir gan QAA drwy'r

[3] www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/master%27s-degree-characteristics-statement.pdf

Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru[4] sy'n cadarnhau (paragraffau 12 a 13) bod y "gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn un o elfennau craidd y dull o asesu ansawdd yr addysg uwch yng Nghymru". Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gofyn i'r Brifysgol alinio ei darpariaeth graddau meistr â'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Graddau Meistr a gyhoeddir gan QAA, a nododd mai dim ond cymwysterau gradd meistr a addysgir y caiff y Brifysgol eu dyfarnu yn ei rhinwedd ei hun am nad oes ganddi bwerau dyfarnu graddau ymchwil. O ganlyniad, dim ond rhaglenni gradd Meistr mewn Ymchwil a addysgir y gall y Brifysgol eu cynnig, ac ni chaiff gynnig gradd Meistr drwy Ymchwil, sy'n radd ymchwil.

15 Mae CCAUC wedi codi nifer o broblemau sy'n achosi pryder yn ymwneud â rhaglenni MRes y Brifysgol, yn cynnwys strwythur rhai o'r rhaglenni sydd fel petaent yn debycach i radd Meistr drwy Ymchwil na gradd Meistr mewn Ymchwil, ac hefyd y diffyg eglurdeb wrth gyfathrebu â'r myfyrwyr ynglŷn â ph'un a ydynt yn astudio ar gyfer gradd ymchwil neu radd a addysgir. Nododd y tîm y camau a gymerwyd gan y Brifysgol i ymdrin â'r amrywiol faterion a godwyd gan CCAUC, oedd yn cynnwys gwneud newidiadau i'r wefan a'r wybodaeth i fyfyrwyr, tynnu dau faes astudio allan, a'r gwaith arfaethedig i ail-ddilysu'r pedair rhaglen arall oedd heb ddigwydd eto ar adeg yr ymweliad.

16 I archwilio a yw rhaglenni MRes y Brifysgol yn alinio ai peidio â'r gofynion ar gyfer rhaglenni a addysgir, ystyriodd y tîm fanylebau'r rhaglenni a'r modiwlau hynny y mae'r Brifysgol yn eu cynnig ar hyn o bryd. Nododd y tîm nad oedd unrhyw gyfeiriad ym manylebau'r rhaglenni at y Datganiadau o Nodweddion Graddau Meistr fel pwynt cyfeirio allanol. Mae manylebau'r rhaglenni MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol ac mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol yn dangos bod y myfyrwyr yn astudio modiwlau a addysgir o 60 credyd, sy'n cynnwys 20 credyd yn ymwneud â dulliau ymchwilio, ac mae gweddill y rhaglen wedi ei neilltuo ar gyfer traethawd ymchwil o 120 credyd a ddisgrifir fel 'prosiect ymchwil sylweddol' yn y maes astudio. Canfu'r tîm fod y pwyslais hwn wedi ei adlewyrchu yn amcanion modiwl y traethawd ymchwil, sef: (i) rhoi cyfle i'r myfyriwr ymchwilio pwnc gwyddonol yn systematig ac yn fanwl sy'n benodol berthnasol i'r rhaglen astudio a diddordebau personol y myfyriwr; (ii) galluogi i'r myfyriwr dynnu ar y corff cynyddol o wybodaeth yn eu dewis faes gwyddonol eang a chyfrannu at ddatblygu'r corff hwn ymhellach; (iii) cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil personol mewn dau bapur gwyddonol y mae modd eu cyhoeddi.

17 Wrth astudio cofnodion cyfarfodydd y Panel SHAPE (ystyr yr acronym Saesneg hwn yw cefnogi dull cyfannol o wella rhaglenni) yn rhan o'r broses fewnol o graffu ar y ddwy raglen MRes hyn - sy'n craffu ar bob cynnig am raglen newydd ac yn argymell a ddylai'r cynnig fynd ymlaen at y cam dilysu - ni chanfu'r tîm unrhyw dystiolaeth i ddangos bod trafodaeth wedi digwydd am aliniad y rhaglenni arfaethedig â'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd Meistr mewn Ymchwil a addysgir. Canfu'r tîm hefyd nad yw adroddiad y digwyddiad dilysu ar gyfer y ddwy raglen hyn yn dangos unrhyw drafodaeth ynglŷn â phriodoldeb strwythurau'r rhaglenni hyn ar gyfer gradd meistr a addysgir nac ynglŷn â phwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn gyffredinol. Mewn perthynas â'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol, mae adroddiad y digwyddiad dilysu'n nodi bod y pwyslais yn y rhaglen ar 'waith ymchwil clinigol mewn labordai'. Wedi iddo ystyried strwythur y rhaglen, natur y traethawd ymchwil, a faint o gredydau a roddir iddo, a'r pwyslais ar waith ymchwil ar sail y maes astudio o fewn y rhaglen, daeth y tîm i'r casgliad fod y ffyrdd y cynlluniwyd y rhaglen MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol yn golygu eu bod yn adlewyrchu graddau Meistr drwy Ymchwil yn hytrach na graddau Meistr mewn Ymchwil a addysgir.

18 Canfu'r tîm fod strwythur y rhaglen MRes mewn Cemeg Ddadansoddol a Fforensig a'r rhaglen MRes mewn Anthropoleg Fforensig a Bioarchaeoleg yn wahanol i strwythur y ddwy

---

[4] www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2022/07/W22-26HE-Annex-A-Quality-Assessment-Framework-July-2022-Cymraeg.pdf

raglen MRes sydd wedi eu trafod yn y ddau baragraff uchod. Mae'r myfyrwyr yn astudio 80 credyd o gynnwys a addysgir, astudiaeth beilot gyda thraethawd o 40 credyd sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau ymchwilio'r myfyrwyr ymhellach, a phrosiect ymchwil o 60 credyd. Mae'r tîm o'r farn bod cynllun y rhaglenni hyn yn cyfateb yn fwy priodol â'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd Meistr mewn Ymchwil a addysgir, a nododd bod yr adroddiad dilysu ar gyfer y gyfres o raglenni MRes ym maes Gwyddoniaeth Fforensig yn cyfeirio at bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol.

19 Yn ystod yr ymweliad, ni allai'r tîm ymchwilio gyfarfod â grŵp cynrychiadol o'r staff oedd yn rhan o'r dilysiadau gwreiddiol, na'r myfyrwyr oedd wedi eu recriwtio mewn blynyddoedd academaidd blaenorol. Nododd y myfyrwyr o'r gyfres o raglenni ym maes Gwyddoniaeth Fforensig eu bod wedi meddwl yn wreiddiol mai rhaglen ymchwil oedd y rhaglen MRes, ond eu bod wedi derbyn esboniad eglur mai rhaglen a addysgir ydoedd. Roedd y staff oedd yn gysylltiedig â'r gyfres o raglenni ym maes Gwyddoniaeth Fforensig yn gwybod yn glir hefyd bod y rhain yn rhaglenni gradd meistr a addysgir a'u bod wedi cael eu llunio'n benodol i fodloni'r gofynion ar gyfer dyfarnu gradd Meistr mewn Ymchwil. Yn debyg i'r Prentisiaethau Gradd, cadarnhaodd y staff fod y cymwysterau gradd MRes wedi cael eu datblygu o fewn ffrâm amser cywasgedig ac, er bod newidiadau wedi digwydd i fanylebau'r rhaglenni, ar sail y pryderon a leisiwyd gan CCAUC, er mwyn dangos yn fwy eglur mai rhaglenni Meistr mewn Ymchwil oedd y rhain, ni chafodd y modiwlau eu newid.

20 Er bod y rhaglenni Prentisiaeth Gradd a'r rhaglenni gradd MRes wedi cael eu datblygu o fewn amser byrrach nag arfer, ni chanfu'r tîm ddigon o dystiolaeth i ddangos bod hyn wedi cyfrannu at y gwendidau yn y broses gymeradwyo. Y ffactor cyffredin oedd methiant i roi ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol ar adeg y cynllunio a'r datblygu ac, wedi hynny, wrth gymeradwyo'r rhaglenni. Mae hyn yn berthnasol i'r rhaglenni Prentisiaeth Gradd (fel y cawsent eu disgrifio ym mharagraff 12) ac hefyd i'r rhaglenni MRes (fel y cawsent eu disgrifio ym mharagraffau 16 a 17). Felly, mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni**. Gan nodi fod y Brifysgol yn bwriadu ail-ddilysu ei darpariaeth graddau MRes cyn hir, mae'r tîm hefyd yn **argymell y dylai'r Brifysgol wneud ail-ddilysiadau, gynted ag y bo modd, o'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol**.

**MSc mewn Cyfrifiadureg gydag Ymarfer Uwch**

21 Yn ystod yr ymweliad, gwnaeth y tîm archwiliad manwl o'r materion a godwyd gan CCAUC mewn perthynas â'r gyfres o raglenni MSc mewn Cyfrifiadureg gydag Ymarfer Uwch. Roedd y brif broblem a nodwyd gan y tîm fel un a ddylai dderbyn ystyriaeth yn ymwneud â'r ffordd y gweithredwyd y bwrdd arholi yn 2021 a ph'un a oedd y Brifysgol wedi dilyn ei phrosesau ei hun wrth ganiatáu 'oedi ar sail dechnegol' i nifer o'r myfyrwyr oedd yn astudio ar y rhaglenni MSc mewn Cyfrifiadureg gydag Ymarfer Uwch. Archwiliwyd y mater hwn drwy dystiolaeth ddogfennol oedd yn cynnwys dogfennaeth y rhaglen, y cofnod o ddilysiad y rhaglen, y Drefn Gwyno a'i nodyn esboniadol atodol gan y Brifysgol, dyfyniadau o gofnodion cyfarfodydd Bwrdd Astudiaethau'r Gyfadran, nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi a Dyfarnu, Polisi Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol, y cynllun gweithredu ar gyfer y rhaglenni MSc mewn Cyfrifiadureg gydag Ymarfer Uwch, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltiad Myfyrwyr Rhyngwladol a'r ystyriaeth a roddwyd iddo gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, ac mewn cyfarfodydd gyda'r staff. Dywedwyd wrth y tîm bod myfyrwyr wedi gwneud nifer o gwynion am y rhaglen yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau ym mis Gorffennaf 2021, a bod y rheiny'n gwynion yn ymwneud â'r marciau a roddwyd iddynt a materion eraill. Cyfeiriwyd y cwynion hyn at y Dirprwy Is-Ganghellor, a chynullwyd panel bychan ym mis Awst 2021 oedd yn cynnwys aelodau allweddol o'r staff uwch i ddatrys y materion. Yn dilyn y broses hon, os oedd myfyrwyr wedi methu un neu fwy o'r modiwlau ac wedi cael eu 'cyfeirio' yn wreiddiol, cafodd y canlyniadau eu diweddaru ar y system cofnodion myfyrwyr i ymddangos fel 'oedi ar sail dechnegol'. Cadarnhaodd y staff uwch mai uwch aelod o'r staff y tu allan i'r bwrdd arholi oedd wedi gwneud y penderfyniad hwn am

ganlyniadau'r myfyrwyr. Daeth y tîm i'r casgliad bod hyn yn gyfystyr â thorri Rheoliadau Academaidd y Brifysgol am fod y Rheoliadau'n neilltuo'r cyfrifoldeb am benderfynu lefel cynnydd pob myfyriwr i'r Byrddau Arholi.

22 Wrth drafod, cadarnhaodd staff y Brifysgol fod y cam gweithredu hwn wedi digwydd oherwydd credid ei fod er lles gorau'r myfyrwyr, a bod angen cymryd y cam hwnnw'n gyflym er mwyn cydymffurfio â'r gofynion amser ar gyfer penderfynu ar ganlyniadau materion eraill, ac y cymerwyd y cam gweithredu hwn ar adeg o'r flwyddyn pan nad oedd modd galw at ei gilydd banelau'r Bwrdd Academaidd sydd wedi eu sefydlu'n ffurfiol. Nododd y tîm fod y camau gweithredu a gymerwyd yn ymwneud â rhan gweddol fechan o ddarpariaeth y Brifysgol. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth sy'n dangos bod y Rheoliadau Academaidd wedi eu torri, mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau y cedwir y safonau academaidd**.

## Myfyrwyr

### Cymorth i fyfyrwyr

23 Mae'r Brifysgol wedi datblygu nifer o strategaethau allweddol i gefnogi ei phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr, ac sy'n amlinellu ei dulliau o alluogi cyflawniad y myfyriwr. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Ymgysylltiad a Chadwraeth Dysgwyr a'r Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor DAA yn goruchwylio'r strategaethau hyn, fel y gwelwn yng nghofnodion ei gyfarfodydd sy'n cadarnhau bod yno ymgysylltiad â'r ddwy strategaeth a'u bod yn cael eu monitro.

24 Yn weithredol, mae'r Gyfarwyddiaeth Bywyd Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws, o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn darparu ystod o wasanaethau chymorth iechyd meddwl a chwnsela ac yn cefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau er mwyn, ymhlith pethau eraill, drafod trefniadau arholi unigol neu wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae aelodau o'r staff sydd â'r cymwysterau priodol yn darparu cyngor am yrfaoedd a chyflogadwyedd yn ogystal â chyllid myfyrwyr ac arian. Mae gan y Brifysgol dîm o Diwtoriaid Sgiliau Academaidd i'w myfyrwyr sy'n darparu sesiynau mentora, naill ai mewn grŵp neu un-i-un, am sgiliau academaidd. Siaradodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw mewn ffordd gadarnhaol am y cymorth academaidd a bugeiliol sydd ar gael iddynt.

25 Yn ôl llawlyfr myfyrwyr y Brifysgol, dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr (gan gynnwys y rheiny sy'n astudio o bell) yn ystod eu cyfnod cynefino, a bydd y tiwtor yma'n darparu cymorth bugeiliol a chymorth academaidd iddyn nhw. Cadarnhawyd hyn gan y staff academaidd, staff y gwasanaethau proffesiynol a'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw. Disgwylir i'r myfyrwyr gyfarfod â'u tiwtoriaid personol dair gwaith ymhob blwyddyn academaidd ar bwyntiau trosglwyddo allweddol. Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r staff fod strwythur penodol i'r cyfarfodydd hyn ac y gwahoddir y myfyrwyr i gynnig pynciau i'w trafod o flaen llaw. Roedd y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr y cyfarfu'r tîm â nhw yn ystod yr ymweliad adolygu'n canmol safon y system tiwtoriaid personol, gan bwysleisio bod y staff yn gefnogol, yn hawdd mynd atynt ac yn ddiddorol. O ystyried hefyd ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd[5] (paragraff 58) a gafwyd yn 2019 sy'n nodi bod gan y Brifysgol ddull effeithiol o wella profiad dysgu ei myfyrwyr, daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol drefniadau boddhaol i gefnogi ei myfyrwyr.

### Amgylchiadau esgusodol

26 Gall myfyriwr sy'n methu cwblhau darn o waith a asesir gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol, fel sydd wedi ei nodi ym mholisi a phroses y Brifysgol ar gyfer amgylchiadau

[5] www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Glynd-r-Wrecsam

esgusodol, ac yn y canllawiau cysylltiedig i fyfyrwyr. Gwerthusir ceisiadau i ddechrau gan Swyddog Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr a gall y swyddog hwn gymeradwyo ceisiadau sydd o natur anghymhleth. Os na fydd y cais am amgylchiadau esgusodol yn cael ei gymeradwyo, mae'n derbyn ystyriaeth gan Banel Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol sydd â Chadeirydd a 'Chyfarwyddwr', a'r Cyfarwyddwr ar hyn o bryd yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Nodir yng nghylch gwaith y Panel Amgylchiadau Esgusodol y bydd y Cyfarwyddwr *"…yn darparu cyngor, cymodi a monitro, fel y bo'n briodol"*. Mewn trafodaethau gyda'r staff uwch, y staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol, clywodd y tîm fod Cyfarwyddwr y Panel Amgylchiadau Esgusodol, pan fo'n bresennol, yn uwch ei lefel na Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol a bod gan y Cyfarwyddwr yr awdurdod i gymeradwyo neu wrthod cais am amgylchiadau esgusodol. Am nad yw rhan hon y rôl wedi ei nodi yng nghylch gwaith y Panel Amgylchiadau Esgusodol, mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol adolygu rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau bod y rolau'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol**.

27 Mae'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor DAA sy'n cynnwys "gwybodaeth ystadegol am y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, a faint ohonynt a gadarnhawyd ac a wrthodwyd, ac unrhyw argymhellion a gafwyd i adolygu'r polisi a'r weithdrefn". I gadarnhau hyn, adolygodd y tîm gofnodion cyfarfodydd a phapurau'r Pwyllgor DAA o'r blynyddoedd academaidd ers 2019-20, ond canfu hyn: er bod y Pwyllgor DAA wedi adolygu elfennau o'r drefn ar gyfer amgylchiadau esgusodol (er enghraifft, effaith cyflwyno hunan-ardystiad), nid oes tystiolaeth yn y cofnodion bod adroddiad blynyddol wedi cael ei ystyried. Yn ogystal, nododd y tîm nad yw cylch gwaith y Bwrdd Academaidd neu gylch gwaith y Pwyllgor DAA yn nodi unrhyw gyfrifoldeb am oruchwylio'r system amgylchiadau esgusodol, a daeth i'r casgliad bod diffyg eglurder ynglŷn â lle y darperir goruchwyliaeth ar lefel y sefydliad. Wrth archwilio'r mater hwn ar y cyd â'r staff uwch, y staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol yn ystod yr ymweliad adolygu, clywodd y tîm fod trefniadau presennol y sefydliad i oruchwylio'r system amgylchiadau esgusodol "heb gael eu datblygu'n ddigonol ac na ystyrir unrhyw ddadansoddiad o niferoedd, themâu a chanlyniadau ar hyn o bryd, naill ai gan y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor DAA neu gan unrhyw grŵp arall". Mewn ymateb i gais am dystiolaeth, cadarnhaodd y Brifysgol, mewn perthynas â cheisiadau am amgylchiadau esgusodol, "nad yw'r Bwrdd Academaidd neu'r Pwyllgor DAA yn adolygu unrhyw ddadansoddiad ar lefel y sefydliad cyfan yn rheolaidd". Daeth y tîm i'r casgliad fod y Brifysgol wedi methu â sicrhau bod ei phrosesau o oruchwylio'r trefniadau ar gyfer ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr am amgylchiadau esgusodol yn cael eu gweithredu'n gyson, ac felly mae'n **argymell y dylai'r Brifysgol sefydlu trefniadau adrodd a goruchwylio, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer amgylchiadau esgusodol yn unol â'i pholisi penodedig**.

**Defnyddio data**

28 Mewn perthynas â monitro data ar lefelau'r carfannau myfyrwyr, y rhaglenni a'r sefydliad cyfan, mae gan y Brifysgol broses y cytunwyd arni o fonitro a gwella rhaglenni sy'n cynnwys data am gynnydd y myfyrwyr, cadwraeth y myfyrwyr (fel procsi am barhad), a chanlyniadau'r myfyrwyr ar bob un o'i rhaglenni. Mewn ymateb i gais am dystiolaeth ychwanegol, cadarnhaodd y Brifysgol ei bod, ar lefel y sefydliad, yn disgwyl y dylai data am gadwraeth myfyrwyr gael ei ystyried ymhob un o gyfarfodydd Bwrdd yr Is-Ganghellor, y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor DAA, a'r Grŵp Mynediad ac Ymgysylltiad Dysgwyr. O safbwynt llywodraethu, ystyrir data am gadwraeth myfyrwyr hefyd ymhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr (y Bwrdd) ac Is-Bwyllgor Strategaeth a Chyllid y Bwrdd. Er bod data am geisiadau, cofrestriadau, cadwraeth a chyrhaeddiad y myfyrwyr yn cael ei dracio'n fanwl, canfu'r tîm nad yw'r 'adroddiadau am gadw' a roddir i Fwrdd yr Is-Ganghellor yn nodi goruchwyliaeth sefydliadol dros gyfresi data allweddol eraill, megis cynnydd y carfannau o un flwyddyn astudio i'r nesaf. Er bod y tîm wedi canfod tystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd o'r tracio yn nhermau dadansoddi bylchau yng nghyflawniadau myfyrwyr - yn arbennig y gyfran o fyfyrwyr sy'n cwblhau eu rhaglenni astudio o fewn yr amser disgwyliedig - ni allent ganfod adroddiadau lefel uchaf o

gwblhau fesul math o gymhwyster (sef israddedig neu ôl-raddedig a addysgir) nac unrhyw nodwr arall. Yn fwy cyffredinol, ni allai'r tîm ganfod tystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd Bwrdd yr Is-Ganghellor, y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor DAA a'r Bwrdd i ddangos bod unrhyw gyfresi data allweddol, heblaw data am gofrestriad a chadwraeth, yn cael eu harchwilio'n gadarn ac yn rheolaidd. Daeth y tîm i'r casgliad nad yw pwyllgorau rheoli a phwyllgorau academaidd y Brifysgol yn cadw goruchwyliaeth ddigonol ar hyn o bryd dros y data am lwyddiant myfyrwyr. Mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad**.

**Cwynion ac apeliadau**

29 Mae gan y Brifysgol Drefn Gwyno ar gyfer Myfyrwyr sy'n cael ei goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Anogir y myfyrwyr i leisio pryderon, a hynny i ddechrau drwy systemau adborth y cyfadrannau, megis system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Fel y nodwyd uchod, yn ystod yr ymweliad clywodd y tîm gan y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr am nifer o esiamplau lle gwnaed newidiadau o ganlyniad uniongyrchol i adborth a gasglwyd gan y myfyrwyr yn bennaf drwy'r platfform llais myfyrwyr 'Unitu'. Er bod gan y Brifysgol bolisi o hyfforddi staff am y Drefn Gwyno, clywodd y tîm yn ei gyfarfodydd gyda'r staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol bod hyfforddiant yn cael ei gynnig i arweinwyr y rhaglenni ond nad yw'n orfodol. Mae'r Drefn Gwyno'n nodi y bydd 'Fforwm Dysgu o Gwynion' yn cael ei gynnull yn flynyddol ac y gwahoddir swyddogion ymchwilio ac aelodau o banelau adolygu iddo. Ond, yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm gan y staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol nad yw hyn wedi digwydd ers 2018-19 yn sgil y pandemig COVID-19.

30 Ar gyfer y cwynion a gafodd eu datrys ar y cam ffurfiol neu'r cam adolygu, mae Deon neu Bennaeth Gweithrediadau'r Gyfadran, fel y bo'n briodol, yn gyfrifol am fonitro i weld a yw unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i gwynion yn derbyn sylw llawn mewn da bryd. Mae Deon y Gyfadran a Deon Cyswllt/Pennaeth Gweithrediadau'r Gyfadran yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu dyrannu i aelodau penodol o'r staff i gael eu gweithredu ac y gosodir dyddiadau cwblhau ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae esiamplau a welwyd gan y tîm o gynlluniau gweithredu ar gyfer cwynion yn ymwneud â rhaglenni yn y ddwy gyfadran yn dangos camau gweithredu clir wedi eu mapio yn erbyn yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r gŵyn.

31 Mae'r Brifysgol yn tracio cynnydd cwynion unigol drwy gofnodion cwynion. Adolygodd y tîm y cofnodion ar gyfer y blynyddoedd academaidd o 2017-18 hyd 2021-22 a chanfu hyn: er bod y rhan fwyaf o'r cwynion wedi derbyn sylw o fewn yr amser disgwyliedig (74 diwrnod gwaith yw'r uchafswm amser o gyflwyniad y gŵyn hyd nes y cynhyrchir y llythyr 'cwblhau'r gweithdrefnau'), roedd 15 o gwynion oedd wedi cymryd llawer hirach i'w cwblhau (roeddent yn amrywio o 77 i 272 o ddiwrnodau gwaith). Cofnodwyd nifer o'r cwynion heb eu hamser cwblhau ac felly mae'n bosibl bod nifer uwch na hyn o gwynion wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r cyfnod cwblhau disgwyliedig. Er bod y cofnodion cwynion yn cynnwys lle i nodi argymhellion ac i dracio eu gweithrediad, nododd y tîm fod y meysydd hyn yn wag yn aml iawn. Pan gytunwyd ar argymhellion, nid oedd yn eglur bob amser beth oedd yr argymhelliad mewn gwirionedd ac a oedd wedi ei weithredu'n llawn a gan bwy. Daeth y tîm i'r casgliad bod y diffyg cofnodion llawn am ymdrin â chwynion yn arwain at y risg o beidio gweld tueddiadau, o beidio nodi cyfleoedd i wella, ac nad yw camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau.

32 Mae gan y Brifysgol Drefn Apeliadau Academaidd sy'n gadael i fyfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Dyfarnu/Dilyniant os oes ganddynt "bryderon bod eu cynnydd neu statws academaidd wedi cael ei effeithio'n niweidiol gan benderfyniad/canlyniad y Bwrdd Dyfarnu/ Dilyniant hwnnw". Mae'n eglur ar ba sail y caiff myfyriwr gyflwyno apêl academaidd a gall Undeb y Myfyrwyr ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr sydd eisiau cyflwyno apêl academaidd. Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau academaidd o fewn 10 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r

canlyniadau. Yn dilyn eu cyflwyniad, rhoddir gwybod i'r myfyrwyr a yw eu hapêl wedi cael ei wrthod neu a yw eu cais wedi ateb y meini prawf angenrheidiol, gan symud felly i gam ffurfiol y broses. Ar y cam ffurfiol, ymchwilir yr apêl academaidd gan Swyddog Ymchwilio a benodir gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. Cyfathrebir canlyniad yr ymchwiliad i'r myfyriwr. Mae Canllaw i Fyfyrwyr y Brifysgol yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno apêl academaidd, ac roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n ymwybodol o'r prosesau hyn. Daeth y tîm i'r casgliad fod gan y Brifysgol broses sicr o ymdrin ag apeliadau ac ymateb iddynt.

33 Pob blwyddyn, mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn llunio adroddiad am y cwynion a'r apeliadau academaidd a gafwyd gan y myfyrwyr, a dylai'r adroddiad hwn "gynnwys data ystadegol a chymharol, rhoi sylwadau am effeithiolrwydd y drefn ac argymell arferion da a gwelliannau i brofiad y myfyrwyr". Nododd y tîm fod yr adroddiadau blynyddol ar gyfer y blynyddoedd academaidd o 2017-18 hyd 2021-22 yn rhoi'r prif ffigurau ond ni chanfu unrhyw ystyriaeth o 'effeithiolrwydd y drefn'. Ers 2019-20, mae'r adroddiadau'n cynnwys ffigurau am yr apeliadau academaidd a gafwyd, ond nid ydynt i'w cael mewn adroddiadau blaenorol. Mae'n ymddangos hefyd bod rhai gwallau yn yr adroddiadau am gwynion ac apeliadau o'u cymharu â'r wybodaeth sydd, er enghraifft, yn y cofnodion cwynion a gedwir gan y Brifysgol. Un enghraifft o hyn yw bod y Brifysgol wedi talu cyfanswm o £8,445 i achwynwyr yn 2021-22 (yn ôl y cofnod o gwynion); ond, mae'r adroddiad am gwynion yn dangos taliadau o £6,345 yn unig. Yn aml iawn, mae'r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiadau diweddarach hynny yn ymwneud â'r broses adrodd ei hun (er enghraifft, 'canfod themâu cyffredin' a 'chanfod meysydd astudio lle mae'r nifer o gwynion yn uwch') yn hytrach nag ymwneud â'r broses o bennu cyfleoedd i wella ansawdd. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor DAA a'r Bwrdd Llywodraethwyr: ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y cyrff hyn ym mis Rhagfyr 2022 i ddangos bod yr adroddiad hwn wedi cael ei graffu neu ei herio'n drwyadl; mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor DAA yn 2020-21 a 2021-22 yn cynnwys ychydig iawn o dystiolaeth i ddangos bod ei aelodau wedi dadansoddi themâu, achosion neu ganlyniadau'r cwynion. Felly, daeth y tîm i'r casgliad nad yw gweithrediad y broses o fonitro a goruchwylio cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr mor effeithiol â'r disgwyliad sydd yn y polisi perthnasol, ac, o ganlyniad, na all y Brifysgol ddefnyddio cwynion neu apeliadau academaidd gan ei myfyrwyr mewn ffordd ddibynadwy i wella profiad ei myfyrwyr. Mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei threfniadau monitro a goruchwylio ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu gweithredu'n llawn yn unol â pholisi'r Brifysgol**.

## Partneriaethau

### Rheoli gweithgareddau partneriaeth

34 Un o brif nodau Strategaeth Ryngwladol y Brifysgol, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Is-Ganghellor ym mis Chwefror 2022, yw "datblygu a gwella ein partneriaethau academaidd rhyngwladol". Mewn cyfarfodydd â'r tîm, ailadroddodd y Brifysgol ei strategaeth ar gyfer amrywiaethu drwy ddatblygu partneriaethau a chynyddu'r nifer o fyfyrwyr rhyngwladol cofrestredig. Mae'r Brifysgol wedi ehangu ei darpariaeth partneriaeth o chwe phartneriaeth yn 2015-16 (pump ohonynt yn y DU ac un arall dramor) i 28 o bartneriaid (ym mis Medi 2022). Mae tri o'r partneriaid hyn yn darparu addysg bellach yn y DU, ac mae'r gweddill yn bartneriaid preifat neu ryngwladol, gydag ychydig dros 2,100 o fyfyrwyr yn astudio drwy drefniadau partneriaeth ar hyn o bryd, tua chwarter yn astudio â phartneriaid yn y DU a'r gweddill drwy bartneriaid rhyngwladol.

35 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethpwyd dau archwiliad mewnol o weithgareddau partneriaeth y Brifysgol gan ei harchwilwyr. Yn yr archwiliad cyntaf, y cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Ebrill 2022, aseswyd y fframwaith ar gyfer cymeradwyo a monitro trefniadau addysg drawswladol y Brifysgol, a daeth yr archwiliad i'r casgliad bod "fframwaith yn ei le sydd wedi ei lunio'n dda ar gyfer monitro a rheoli trefniadau addysg drawswladol", gydag un cam gweithredu

rheolaeth sy'n ymwneud ag adolygu'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy gwreiddiol a gyflawnwyd i sefydliadau partner. Mae'r cam hwn wedi ei weithredu'n barod. Sbardunwyd yr ail archwiliad, y cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, gan yr Adolygiad Risg Sefydliadol gan CCAUC (Mai 2022) oedd yn gofyn am ragor o sicrwydd mewn perthynas â'r prosesau llywodraethu sydd yn eu lle i asesu a monitro ansawdd y trefniadau partneriaeth. Daeth adroddiad yr archwiliad hwn i'r casgliad fod fframwaith llywodraethu cadarn yn ei le a nododd un cam gweithredu o ran rheoli mewn perthynas â datblygu Fforymau Llais y Myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Codwyd y mater o ddatblygu llais y myfyriwr mewn sefydliadau partner gan CCAUC hefyd yn eu Hadolygiad Sicrwydd Ansawdd teirblynyddol yn 2020. Nododd y tîm fod y Brifysgol yn rhoi sylw i'r mater hwn yn ei Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr ar gyfer 2022-23, sy'n cael ei monitro gan y Pwyllgor DAA, ac sy'n cynnwys cam gweithredu i adolygu'r mecanweithiau ar gyfer casglu adborth gan fyfyrwyr ar bob lefel ac o dan bob dull darparu, gan gynnwys darpariaeth partneriaeth.

36 Mae gan y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) y cyfrifoldeb gweithredol am bartneriaethau, gyda chefnogaeth aelodau eraill o'r Tîm Partneriaethau - sef y Rheolwr Partneriaethau, y Rheolwr Datblygiad a Chyswllt Partneriaethau, y Rheolwr Datblygiad Rhyngwladol, yr Uwch Swyddog Partneriaethau, a'r Swyddog Partneriaethau. Ehangwyd y Tîm Partneriaethau o dri aelod ym mis Mawrth 2022 i'w chwe aelod presennol i gefnogi'r twf yn y gweithgareddau partneriaeth. Mae'r Llawlyfr ar gyfer Partneriaethau Academaidd yn disgrifio trefniadau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro, adolygu a chau partneriaethau.

37 Mae Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn cymeradwyo partneriaethau newydd yn unol â'i gylch gwaith. Yn ogystal, mae'r rhain yn nodi y bydd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, "hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr am y partneriaethau hynny sydd â risgiau uchel ac a allai gael effeithiau strategol ac ariannol ar y Brifysgol" ac mae'r Llawlyfr ar gyfer Partneriaethau Academaidd hefyd yn rhoi manylion o'r ffordd y dylid trin cynigion am bartneriaethau sydd â risgiau uchel, gan gynnwys penderfynu peidio eu cymeradwyo nhw neu ofyn bod y panel cymeradwyo priodol yn rhoi sylw i faterion penodol. Cadarnhaodd y tîm nad oes unrhyw bartneriaethau eraill â risgiau uchel, heblaw'r cynnig diweddar am gampws ym Manceinion, wedi cael eu hadrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

38 Archwiliodd y tîm ar y cyd â'r staff uwch sut y maen nhw'n diffinio partneriaeth sydd â risgiau uchel a dywedwyd wrthynt nad yw'r Brifysgol wedi diffinio neu ddogfennu'r hyn a ystyrir yn risgiau uchel ond ei bod o'r farn fod y risgiau uchaf yn dod o sefydliadau sydd heb brofiad o gwbl o ddarparu addysg uwch, sy'n ansefydlog yn ariannol, sy'n gweithredu'n bennaf mewn iaith heblaw'r Saesneg, ac sydd heb reoliadau ysgrifenedig yn yr iaith Saesneg. Dywedodd y staff uwch hefyd y byddent yn annhebygol o weithredu ar gynnig fel yma, er bod rhai, ond nid pob un, o'r elfennau a allai beri'r risgiau uchaf yn dderbyniol o bosib. Mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol, er mwyn sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau penodedig yn llawn ac yn gyson ar gyfer partneriaethau sydd â risgiau uchel, ddiffinio a dogfennu'r hyn a ystyrir yn bartneriaeth â risgiau uchel**.

39 Ystyriodd y tîm ddogfennau a ddarparwyd i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor sy'n ymwneud â chymeradwyo partneriaeth newydd ag Athrofa Bloomsbury. Roedd y dogfennau'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol, yn ogystal ag ystyriaeth o ansawdd a safonau - er enghraifft, strwythurau llywodraethu academaidd, prosesau a chanlyniadau adolygiadau allanol; darperir gwybodaeth diwydrwydd dyladwy gan y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) gyda chyfranogaeth gan randdeiliaid allweddol eraill. Mewn cyfarfod â'r staff uwch, clywodd y tîm nad yw Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi gwrthod unrhyw gynigion llawn, er nad yw rhai'n cyrraedd y cam hwn. Hefyd, er bod y ddogfennaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd a safonau, cadarnhaodd y tîm nad oes mewnbwn rheolaidd i'r broses gan y cyrff hynny yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd a safonau'n gyffredinol ar draws y sefydliad cyfan. Mewn cyfarfod â'r staff uwch, clywodd y tîm fod y panel cymeradwyo rhaglenni'n ymdrin â materion academaidd megis staffio, darparu rhaglenni a'r cwricwlwm.

Ond, darllenodd y tîm yr adroddiad dilysu ar gyfer y bartneriaeth newydd hon a chanfu fod trafodaethau yn y digwyddiad dilysu, sy'n gyson â'r broses ddilysu, wedi eu cyfyngu i raddau mawr i ystyried y rhaglenni dan sylw yn unig, yn hytrach nag unrhyw faterion ehangach yn ymwneud â gallu'r partner i ddarparu rhaglenni a chynnal eu hansawdd. Mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol, wrth ystyried a chymeradwyo partneriaethau, sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r broses gymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol**.

40 Wrth ystyried proses y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo'r bartneriaeth arfaethedig ag Athrofa Bloomsbury, dyma a welwyd gan y tîm: er bod y Swyddfa Myfyrwyr wedi gosod gofyniad rheoleiddiol ar y partner arfaethedig mewn perthynas â'r gyfradd o'i fyfyrwyr[6] sy'n parhau i astudio, ni chafodd y mater hwn ei gynnwys fel risg posibl yn adroddiad y gwiriad diwydrwydd dyladwy, er bod Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor wedi nodi mai 'pryderon am ansawdd' a godwyd gan y Swyddfa Myfyrwyr oedd y rheswm pam yr ymadawodd y brifysgol ddilysu flaenorol â'r bartneriaeth. Mewn cyfarfod â'r tîm, esboniodd y staff uwch eu bod wedi trafod y materion hyn gyda'r partner, bod goruchwylio data o'r fath yn rhan safonol o'r prosesau monitro parhaus ac, o'r herwydd, nad oeddent wedi eu darbwyllo bod unrhyw risgiau sylweddol yn bodoli, er bod y tîm wedi nodi nad oedd tystiolaeth yn nogfennaeth y cynnig bod y mater hwn wedi derbyn ystyriaeth. O weld nad oedd y Brifysgol wedi cofnodi'r holl risgiau oedd yn gysylltiedig â'r bartneriaeth hon, mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol sicrhau y cofnodir pob risg sydd wedi derbyn ystyriaeth yn rhan o'r broses gymeradwyo partneriaid, ochr yn ochr â'r camau gweithredu arfaethedig i leihau'r risg hwnnw**.

41 Mae'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (Pwyllgor PA) wedi ei gadeirio gan y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) ac mae'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Mae cylch gwaith y Pwyllgor PA yn nodi bod y pwyllgor yn gyfrifol am "dderbyn ac ystyried argymhellion a geir mewn digwyddiadau panelau i ddilysu darpariaeth gydweithredol a chymeradwyo darpariaeth rhaglenni (gan gynnwys digwyddiadau ail-ddilysu ac ail-gymeradwyo) er mwyn penderfynu a ydynt eisiau argymell bod y Bwrdd Academaidd yn eu cymeradwyo". Mae ei gylch gwaith hefyd yn diffinio nifer o bwerau sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor a'i Gadeirydd mewn perthynas â phartneriaethau academaidd; mae'r rhain yn cynnwys ei allu i "awdurdodi'r Cadeirydd i gymryd y camau gweithredu hynny a allai fod yn angenrheidiol i weithredu busnes brys yn gyflymach yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd, ar yr amod bod y Cadeirydd yn fodlon y byddai'r pwyllgor llawn yn cymeradwyo'r penderfyniad ac y darperir adroddiad am weithred o'r fath i'r pwyllgor".

42 Er gwaethaf yr awdurdod dirprwyedig hwn, canfu'r tîm dystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor PA ers blwyddyn academaidd 2019-20 sy'n dangos bod y Pwyllgor PA wedi gwneud nifer sylweddol o benderfyniadau ynglŷn â chymeradwyo materion partneriaeth drwy gamau gweithredu'r Cadeirydd. Er enghraifft, nodwyd y camau a gymerwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor PA yng nghofnodion cyfarfodydd y pwyllgor ym misoedd Hydref 2019, Chwefror 2020, Mai 2020, Hydref 2020, Ebrill 2021, Hydref 2021 a Chwefror 2022. Mae camau gweithredu'r Cadeirydd yn berthnasol i'r ddau fater y mae gan y Pwyllgor PA awdurdod dirprwyedig drostynt, megis cymeradwyo ceisiadau i ganiatáu i bartner presennol ddarparu rhaglenni ychwanegol er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses gymeradwyo, yn ogystal â gwneud argymhellion i'r Bwrdd Academaidd i roi cymeradwyaeth derfynol i raglen gael ei darparu gan bartner ar ôl derbyn adroddiad digwyddiad dilysu. Canfu'r tîm hefyd nifer sylweddol o gamau a gymerwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd mewn perthynas â materion partneriaeth, y mae enghreifftiau ohonynt wedi eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor PA ym misoedd Hydref 2019, Chwefror 2020, Mai 2020, Gorffennaf 2020, Chwefror 2021, Ebrill 2021 a Chwefror 2022, ac yng nghofnodion cyfarfodydd perthnasol y Bwrdd Academaidd hefyd. Nododd y tîm fod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor PA yn dangos bod rhai materion yn cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor PA ac, wedi hynny, gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd. Mae nifer y camau a

[6] www.bil.ac.uk/qem/section-1/office-for-students-regulatory-framework-notices-and-advice/

gymerwyd gan y Cadeirydd yn awgrymu nad yw craffu llawn a chyfle i'r pwyllgorau llywodraethu academaidd perthnasol herio'n fewnol yn digwydd fel mater o drefn.

43 Yn ei gyfarfodydd â'r staff uwch, archwiliodd y tîm y mater hwn, a chlywodd fod gweithredu fel hyn yn digwydd weithiau pan ystyrir bod angen gwneud penderfyniad ar fyrder; yn ogystal, mewn perthynas â'r camau a gymerir gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd, os yw'r rhaglenni sy'n cael eu cymeradwyo yn cael eu darparu hefyd yn y Brifysgol, ac os nad yw'r panel cymeradwyo wedi codi unrhyw bryderon, mae'r staff uwch yn ystyried y byddai'r Bwrdd Academaidd yn debygol o gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor PA. Dywedwyd hefyd bod y camau a gymerir gan y Cadeirydd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor PA a chyfarfodydd y Bwrdd Academaidd, gan ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud. Serch hynny, o ddarllen cofnodion cyfarfodydd y ddau bwyllgor, nododd y tîm mai yn anaml iawn y mae hyn yn digwydd. Yn ei gyfarfodydd â'r staff uwch, clywodd y tîm hefyd fod dogfennaeth lawn wedi cael ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor PA i wahodd sylwadau er mwyn osgoi gorfod cyflawni cam gweithredu'r Cadeirydd. Er bod y tîm wedi canfod esiamplau o hyn yng nghofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor PA ym misoedd Ebrill 2021, Hydref 2021 a Hydref 2022, clywodd y tîm yn ei gyfarfodydd ag aelodau o'r staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth bod dogfennaeth fel hyn yn cael ei derbyn, fel arfer, dim ond ar ôl i gam gweithredu Cadeirydd y Pwyllgor PA gael ei gyflawni.

44 Nododd y tîm hefyd nad yw gweithredoedd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yn ymwneud bob amser â'r achosion anghymhleth a awgrymir uchod - er enghraifft, rhoddwyd cymeradwyaeth i ddarpariaeth rhaglen gychwyn drwy gyfrwng cam gweithredu'r Cadeirydd i Athrofa Bloomsbury, er ei bod hi'n darparu darpariaeth a ddilysir ac yn cynnig rhaglenni sydd â thariffau credyd ansafonol yr oedd y panel dilysu wedi gwneud nifer o argymhellion amdanynt. O'u hystyried ynghyd â'r materion a nodwyd gynt mewn perthynas â'r broses gymeradwyo hon, daeth y tîm i'r casgliad fod defnyddio cam gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo'r bartneriaeth hon yn arwydd o ddiffyg manwl gywirdeb yn y broses gymeradwyo. Wrth ystyried y lefelau o annibyniaeth rhwng rolau a phrosesau yn ymwneud â rheoli partneriaethau, nododd y tîm fod y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) yn ystyried cynigion cychwynnol am bartneriaethau ochr yn ochr â'u dogfennaeth gysylltiedig, yn cyflwyno'r cynigion hynny i Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, yn cadeirio'r Pwyllgor PA, a thrwy ei awdurdod dirprwyedig, mae'n gallu cymryd nifer sylweddol o gamau gweithredu'r Cadeirydd mewn perthynas â materion partneriaeth. Daeth y tîm i'r casgliad fod y lluosogrwydd rolau'n awgrymu nad oedd annibyniaeth ddigonol yn y strwythurau a'r prosesau ar gyfer partneriaethau academaidd.

45 O ystyried y gwendidau a nodwyd ym mharagraffau 42 i 44, mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Brifysgol, mewn perthynas â rheoli a goruchwylio partneriaethau, adolygu'r rolau a'r gweithdrefnau, gan gynnwys maint yr awdurdod y mae pwyllgorau wedi ei ddirprwyo i'w cadeiryddion, er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu craffu'n drwyadl, eu herio'n fewnol a'u goruchwylio drwy'r strwythur llywodraethu academaidd**.

**Goruchwyliaeth y Bwrdd Llywodraethwyr ar bartneriaethau**

46 Nododd y tîm fod CCAUC wedi holi a oes gan y Bwrdd Llywodraethwyr ddigon o oruchwyliaeth ac arbenigedd i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau am ansawdd, gan gynnwys mewn perthynas â materion sydd wedi eu nodi yn y cynllun ymchwilio. Wrth ystyried y mater hwn, canfu'r tîm fod diffyg tystiolaeth yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ym mlynyddoedd academaidd 2019-20, 2020-21 a 2021-22 i ddangos bod adroddiadau am faterion partneriaeth yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Ond, dywedwyd wrtho fod hyn wedi dod yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y Bwrdd o flwyddyn academaidd 2022-23 ymlaen. Yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2022, gwelwyd tystiolaeth o esboniad gan y Pro Is-Ganghellor (Partneriaethau) am drefniadau partneriaeth y Brifysgol, a thrafodaeth amdanynt, a chofnodir diweddariad byr am faterion partneriaeth yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022. Nododd y tîm hefyd, wedi i CCAUC godi ei bryderon ynglŷn â phartneriaethau, fod Panel

Craffu ar Ansawdd a Safonau (Panel CAS) y Bwrdd wedi gwneud archwiliad dwfn o'r trefniadau partneriaeth ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn fodlon bod y Bwrdd yn cadw goruchwyliaeth briodol dros ansawdd a safonau'r ddarpariaeth partneriaeth.

47 Nododd y tîm fod CCAUC wedi codi pryderon hefyd ynglŷn â champws y Brifysgol ym Manceinion sydd i gael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Ysgol Fasnach Llundain. Yn dilyn argymhelliad gan Dîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, cymeradwywyd cynnig i ddatblygu campws y Brifysgol ym Manceinion gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Canfu'r tîm fod cyfres gyflawn o ddogfennau wedi cael ei chyflwyno i'r Bwrdd, ac mae cofnodion ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 yn dangos iddynt gynnal trafodaeth, cyn i'r cynnig gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, am y galw gan y farchnad, am reolaeth dros brofiad y myfyrwyr, y capasiti rheoli, materion ariannol, risgiau a threfniadau i'w lliniaru, a gofynion rheoleiddiol. Mewn trafodaeth â'r tîm, dywedodd aelodau'r Bwrdd mai budd sefydlu'r campws ym Manceinion fydd denu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol, yn unol â strategaeth y Brifysgol.

48 Mae'r bartneriaeth gydag Ysgol Fasnach Llundain yn cael ei llywio gan Femorandwm Cytundeb a lofnodwyd ym mis Gorffennaf 2022. Yn ôl yr hyn a ddywedodd staff uwch wrth y tîm, gofynnwyd i'r Bwrdd, mewn ymateb i gais gan CCAUC, ail-gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer y campws ym Manceinion fel sydd wedi eu dangos yn y Memorandwm Cytundeb. Hefyd, dywedodd y staff uwch wrth y tîm am benderfyniad a wnaed yn ddiweddar y byddai'r Brifysgol yn cyflogi'n uniongyrchol bob aelod o'r staff academaidd a fyddai'n darparu, asesu a rheoli rhaglenni ar y campws ym Manceinion, ac mai rôl y partner fyddai'r darparwr gwasanaeth. Clywodd y tîm fod y penderfyniad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor, yn hytrach na thrwy'r strwythur llywodraethu academaidd, am 'nad oedd yn fater cynhennus', ac eto roedd yn rhaid ei gofnodi mewn fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r Memorandwm. Nododd y tîm fod penderfyniad y Brifysgol i gyflogi'r holl staff academaidd yn uniongyrchol yn wyriad oddi wrth y Memorandwm Cytundeb presennol, sy'n nodi y bydd staff sy'n darparu ac yn asesu'r rhaglenni yn staff wedi eu secondio i'r Ysgol Fasnach Llundain, ac wedi eu talu ganddi, ac y bydd arweinwyr y rhaglenni a'r rheolwyr llinell academaidd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Brifysgol.

49 Mewn trafodaeth â'r tîm, roedd aelodau'r Bwrdd yn barnu bod diffyg goruchwyliaeth gan y Bwrdd yn y gorffennol dros y gweithgareddau partneriaeth, ac er bod y Bwrdd wedi cymryd camau yn ystod y misoedd diwethaf i fynd i'r afael â hyn, bod angen cynnydd pellach. Er bod cofnodion cyfarfodydd diweddar y Bwrdd ym misoedd Hydref a Thachwedd 2022 yn cadarnhau bod y camau hyn yn cael eu cymryd, daeth y tîm i'r casgliad fod gofyn o hyd i'r Bwrdd gryfhau ei oruchwyliaeth ar drefniadau partneriaeth y Brifysgol ymhellach. Mae'r materion hyn yn cyfrannu at yr argymhelliad sydd wedi ei nodi ym mharagraff 57 mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol.

## Llywodraethu ansawdd

50 Mae Bwrdd Llywodraethwyr (Bwrdd) y Brifysgol yn bennaf gyfrifol, yn ôl ei Datganiad o Brif Gyfrifoldebau, am sicrhau bod "trefniadau yn eu lle ar gyfer llywodraethu'r rhaglenni addysg yn effeithiol a sicrhau eu hansawdd a'u safonau ar lefel academaidd". Disgrifiodd yr aelodau o'r Bwrdd y cyfarfu'r tîm â nhw ddyletswyddau'r Bwrdd yn eglur mewn perthynas â sicrhau y gosodir safonau academaidd priodol, cyfeiriad strategol y Brifysgol, y defnydd a wneir o adnoddau, a sicrhau bod ei myfyrwyr i gyd yn cael profiad priodol.

51 Mae'r Is-Ganghellor a'i Dîm Gweithredol yn adrodd i'r Bwrdd, a dyna hefyd a wna'r Bwrdd Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb academaidd pennaf am ansawdd a safonau, fel sydd wedi ei nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 14 aelod annibynnol, pedwar aelod o blith staff y Brifysgol sy'n cynnwys yr Is-Ganghellor ac enwebai'r Bwrdd Academaidd, a dau lywodraethwr o blith y myfyrwyr. Nododd y tîm benodiadau diweddar yn arweinyddiaeth ac aelodaeth y Bwrdd, gan gynnwys dau aelod sydd â phrofiad o weithio

mewn rôl lefel uwch ym maes addysg uwch. Daeth y tîm i'r casgliad fod cyfansoddiad y Bwrdd yn dangos cydbwysedd priodol rhwng aelodau annibynnol ac aelodau mewnol. Mae gan y Bwrdd nifer o bwyllgorau sy'n adrodd iddo, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau, ac hefyd Banel Craffu ar Ansawdd a Safonau (Panel CAS) ers 2017.

52 Wrth drafod, clywodd y tîm gan y staff uwch fod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n eu herio nhw'n effeithiol mewn perthynas â'u harweinyddiaeth a'u rheolaeth ar y Brifysgol. Disgrifiodd aelodau o'r Bwrdd gamau gweithredu a gymerwyd ganddo i'w hysbysu yn ei ystyriaeth o ddarpariaeth y Brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o archwiliadau dwfn o feysydd penodol, er enghraifft, uniondeb academaidd y myfyrwyr, a gallu'r Brifysgol i reoli'r twf yn ei gweithgareddau rhyngwladol a'i phartneriaethau'n effeithiol. Yn ogystal, nododd y tîm fod Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'r Bwrdd wedi comisiynu dau archwiliad allanol yn 2022 i drefniadau addysg drawswladol a phartneriaethau, fel y disgrifiwyd ym mharagraff 35. Daeth y tîm i'r casgliad fod adroddiadau'r archwiliadau hyn yn debygol o fod yn adnodd defnyddiol i alluogi i'r Bwrdd werthuso camau rheoli yn y meysydd hyn.

53 Mewn trafodaethau, dywedodd aelodau o'r Bwrdd eu bod yn ymwybodol o feysydd lle mae angen cryfhau'r trefniadau goruchwylio. Yn benodol, roeddent wedi cydnabod bod angen dadansoddi data a thueddiadau'n well mewn nifer o feysydd - er enghraifft, cofrestru a chadw myfyrwyr, cwynion myfyrwyr, cwblhad a chynnydd myfyrwyr, denu myfyrwyr a marchnata - er mwyn sicrhau bod y strategaethau cywir yn eu lle a bod y prosesau monitro'n effeithiol. Roeddent o'r farn bod diwylliant y Bwrdd wedi newid o ganlyniad i'r effaith a gafodd y pandemig COVID-19, a'i fod yn fwy heriol yn awr er mwyn sicrhau bod strategaeth y Brifysgol yn llwyddo.

54 Rhoddodd y tîm ystyriaeth fanwl i waith y Panel CAS o oruchwylio trefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Yn ôl ei gylch gwaith, mae gofyn i'r Panel CAS "ganfod a gwerthuso tystiolaeth a chynghori'r Bwrdd ar lofnodi'r datganiadau sicrwydd blynyddol am ansawdd a safonau sy'n ofynnol gan CCAUC". Wrth werthuso pa mor effeithiol y mae'r Panel CAS yn cyflawni'r ddyletswydd hon, ystyriodd y tîm gofnodion ac adroddiadau cyfarfodydd y Panel CAS ym misoedd Tachwedd 2022 a Thachwedd 2021. Ymhob un o'r cyfarfodydd hyn, roedd y Panel CAS yn asesu tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd ansawdd i CCAUC ac yn argymell a ddylai'r Bwrdd gadarnhau'r datganiadau i CCAUC. Nododd y tîm mai barn rhai o'r staff uwch oedd bod adroddiadau'r Bwrdd Academaidd o ddiddordeb mawr i'r Panel CAS, a bod ei gyfarfodydd yn cynnwys trafodaeth a herio gan ei aelodau i gyd.

55 Mae cofnodion cyfarfod y Panel CAS ym mis Tachwedd 2021 yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod y Panel CAS wedi ystyried a gwerthuso canlyniadau trefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn drwyadl. Mae'r adroddiad y mae'r Panel CAS yn ei roi i'r Bwrdd yn cynnwys gwerthusiad manwl o dystiolaeth i gefnogi pob un o'r chwe datganiad sicrwydd ansawdd i CCAUC. Daeth y tîm i'r casgliad fod y Panel CAS wedi ystyried adroddiadau mewnol y Brifysgol yn drwyadl ac yn effeithiol yn ystod 2021. Ond, mae cofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd 2022 yn dangos trafodaethau a ddigwyddodd ar lefel uchel yn unig, a disgrifio'r broses asesu y maent yn bennaf heb werthuso'r heriau na chwestiynu'r adroddiadau a gyflwynwyd iddynt, ac heb unrhyw argymhellion neu ganlyniadau eraill. Daeth y tîm i'r casgliad nad oedd y cofnod o ystyriaeth y Panel CAS o dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd ansawdd i CCAUC yn 2022 yn ystyried yr adroddiadau mewnol yn ddigon trwyadl ac effeithiol. Daeth y tîm i'r casgliad mai tystiolaeth gymysg sydd yma o effeithiolrwydd gwaith craffu'r Panel CAS ar drefniadau sicrhau ansawdd y Brifysgol.

56 Nododd y tîm fod y Brifysgol wedi comisiynu adolygiad allanol am effeithiolrwydd y Bwrdd, a chafwyd ei adroddiad ym mis Ionawr 2022. Canfu'r adolygiad fod y dull llywodraethu'n effeithiol. Mewn perthynas ag ansawdd academaidd a goruchwyliaeth, nododd yr adroddiad fod "yr amrywiol feysydd sydd angen eu goruchwylio'n briodol gan y Bwrdd wedi eu cydbwyso'n ofalus". O ganlyniad i'r adolygiad, cafwyd cyfanswm o 16 argymhelliad er mwyn helpu i wella gwaith y Bwrdd yn y dyfodol, ac mae chwech ohonynt wedi eu blaenoriaethu. Ym mis Ebrill

2022, defnyddiwyd yr argymhellion hyn gan y Bwrdd i hysbysu cynllun gweithredu, a gafodd ei ddiweddaru ym mis Hydref 2022. Mae'r cynllun diweddaraf yn dangos bod y Bwrdd wedi derbyn 15 o'r 16 argymhelliad, gan gynnwys pump o'r chwe argymhelliad oedd â 'blaenoriaeth', a'i fod wedi pennu camau gweithredu i gyflawni pob un o'r 15 argymhelliad. Hyd at fis Hydref 2022, cwblhawyd tri o'r camau gweithredu hyn ac roedd 12 arall yn dal i fod 'ar waith'. Roedd tystiolaeth yn y cynllun gweithredu i ddangos bod gwaith yn digwydd i gwblhau'r camau sydd heb eu gweithredu. Clywodd y tîm gan y staff uwch ac aelodau o'r Bwrdd fod y Bwrdd a'i aelodau'n fwy rhagweithiol erbyn hyn, a hynny drwy gwrdd â'r cyfadrannau a'u haelodau ac arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd.

57 Daeth y tîm i'r casgliad fod y Bwrdd, wedi ei hysbysu gan yr adolygiad allanol a gafwyd ym mis Ionawr 2022, yn ymwybodol bod angen gwella effeithiolrwydd ei weithgareddau, ac mae'n cymryd camau i wneud hynny. Nododd y tîm hefyd y dystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd gwaith y Panel CAS mewn perthynas â chyfrifoldeb y Bwrdd am oruchwylio'r datganiadau sicrwydd blynyddol yn ymwneud â'r ansawdd a safonau sy'n ofynnol gan CCAUC, a'r problemau sydd wedi eu nodi ym mharagraff 49 yn ymwneud â goruchwylio partneriaethau'r Brifysgol. Mae'r tîm yn **argymell y dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr barhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaethau academaidd**.

## Problemau eraill a ddaeth i'r amlwg

58 Gall y tîm adolygu gadarnhau nad oes unrhyw broblemau eraill wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad.

## Y casgliad

59 Ystyriodd y tîm ganlyniad yr ymchwiliad yn ôl y categorïau a'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn Atodiad 1 y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru).

60 Ar sail ei ystyriaeth o ffocws yr ymchwiliad a osodwyd gan CCAUC, gwnaeth y tîm gyfanswm o 12 argymhelliad sydd wedi eu nodi ym mharagraff 64.

61 Gwnaeth y tîm bump o'r argymhellion hyn i fynd i'r afael â phroblemau difrifol sy'n achosi pryder. Mae'r ffaith bod angen sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni (argymhelliad a) yn seiliedig ar fwlch sylweddol mewn gweithdrefnau sy'n ymwneud â safonau academaidd. Mae'r ffaith bod angen sicrhau bod ei rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau y cedwir y safonau academaidd (argymhelliad c) yn ymwneud â'r casgliad bod y Brifysgol wedi torri ei threfnau rheoli sicrwydd ansawdd ei hun. Mae'r ffaith bod angen cryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant myfyrwyr (argymhelliad f) yn dangos nad yw rhannau o'r strwythur llywodraethu academaidd yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r ffaith bod angen diffinio a dogfennu'r hyn a ystyrir yn bartneriaeth â risgiau uchel, a'r angen i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r broses gymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol (argymhellion h, i) yn seiliedig ar y bylchau sylweddol mewn polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â safonau academaidd a sicrwydd ansawdd y darparwr.

62 Mae'r saith argymhelliad arall yn ymwneud â phroblemau bychain sy'n achosi pryder. Mae'r ffaith bod angen gwneud ail-ddilysiadau o'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol (argymhelliad b) yn seiliedig ar fwlch sylweddol mewn gweithdrefnau sy'n ymwneud â safonau academaidd, ond mae wedi ei gyfyngu i ran fechan o ddarpariaeth y Brifysgol. Mae'r ffaith bod angen sefydlu trefniadau adrodd a goruchwylio, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer amgylchiadau esgusodol; yr angen i sicrhau y cofnodir pob risg sydd wedi derbyn ystyriaeth yn rhan o'r broses gymeradwyo partneriaid, ochr yn ochr â'r camau gweithredu arfaethedig i leihau'r risg hwnnw; a'r angen i adolygu'r rolau a'r gweithdrefnau, gan gynnwys maint yr awdurdod y mae pwyllgorau wedi ei ddirprwyo i'w cadeiryddion, er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu craffu'n drwyadl, eu herio'n fewnol a'u goruchwylio drwy'r strwythur llywodraethu academaidd (argymhellion e, j, k) yn seiliedig ar y pwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau neu ansawdd ym mhrosesau'r Brifysgol. Mae'r ffaith bod angen adolygu rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol (argymhelliad d) yn ymwneud â gwendidau yn nhermau pa mor fanwl gywir y caiff gweithdrefnau eu gweithredu. Mae'r ffaith bod angen sicrhau bod ei threfniadau monitro a goruchwylio ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu gweithredu'n llawn yn unol â pholisi'r Brifysgol; a'r angen i'r Bwrdd Llywodraethwyr barhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol (argymhellion g, l), yn seiliedig ar wendidau yng ngweithrediad llywodraethu academaidd y Brifysgol.

63 O ystyried y problemau sydd wedi eu nodi ym mharagraff 61, daeth y tîm ymchwilio i'r casgliad bod **problemau difrifol** yn bodoli.

## Yr argymhellion

64 Mae'r tîm yn gwneud yr argymhellion canlynol:

a dylai'r Brifysgol sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol yn ystod y broses o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni (paragraff 20)

b dylai'r Brifysgol wneud ail-ddilysiadau, gynted ag y bo modd, o'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Clinigol Cymhwysol a'r rhaglen MRes mewn Ymchwil Cymhwysol yn y Gwyddorau Biofeddygol (paragraff 20)

c dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei rheoliadau academaidd yn cael eu gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau y cedwir y safonau academaidd (paragraff 22)

d dylai'r Brifysgol adolygu rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau bod y rolau'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol (paragraff 26)

e dylai'r Brifysgol sefydlu trefniadau adrodd a goruchwylio, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer amgylchiadau esgusodol yn unol â'i pholisi penodedig (paragraff 27)

f dylai'r Brifysgol gryfhau'r broses o adrodd ar gyfresi data allweddol am lwyddiant myfyrwyr er mwyn hwyluso goruchwyliaeth fwy effeithiol ar lefel y sefydliad (paragraff 28)

g dylai'r Brifysgol sicrhau bod ei threfniadau monitro a goruchwylio ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd wedi eu gweithredu'n llawn yn unol â pholisi'r Brifysgol (paragraff 33)

h dylai'r Brifysgol, er mwyn sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau penodedig yn llawn ac yn gyson ar gyfer partneriaethau sydd â risgiau uchel, ddiffinio a dogfennu'r hyn a ystyrir yn bartneriaeth â risgiau uchel (paragraff 38)

i dylai'r Brifysgol, wrth ystyried a chymeradwyo partneriaethau, sicrhau y rhoddir ystyriaeth ehangach yn rhan o'r broses gymeradwyo i allu'r partner i ddarparu rhaglenni o'r safon ofynnol (paragraff 39)

j dylai'r Brifysgol sicrhau y cofnodir pob risg sydd wedi derbyn ystyriaeth yn rhan o'r broses gymeradwyo partneriaid, ochr yn ochr â'r camau gweithredu arfaethedig i leihau'r risg hwnnw (paragraff 40)

k dylai'r Brifysgol, mewn perthynas â rheoli a goruchwylio partneriaethau, adolygu'r rolau a'r gweithdrefnau, gan gynnwys maint yr awdurdod y mae pwyllgorau wedi ei ddirprwyo i'w cadeiryddion, er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu craffu'n drwyadl, eu herio'n fewnol a'u goruchwylio drwy'r strwythur llywodraethu academaidd (paragraff 45)

l dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr barhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio ansawdd a safonau'n effeithiol, gan gynnwys mewn perthynas â phartneriaethau academaidd (paragraff 57).

**QAAXXX - RXXXX - Mawrth 2023**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557 000
Gwefan: www.qaa.ac.uk